

RHAGARWEINIAD

Mae'r rhan fwyaf o'r coetir brodorol sydd ar ôl yng Nghymru i'w ganfod ar dir fferm traddodiadol. Mae gan lawer o safleoedd ddigonedd o fywyd gwyllt diddorol, yn aml, ochr yn ochr â gweddillion archeolegol pwysig. Yn y gorffennol, rheolwyd y coetiroedd hyn i gynhyrchu coed, coed tân, siarcol a rhisgl barcio, ond yn ddiweddar, torrwyd ar draws y cylch rheoli a chollwyd sgiliau traddodiadol.

Wrth gyflwyno'r Cynllun Taliad Sengl yn ddiweddar, codwyd cwestiynau am effeithiau coetiroedd a rheoli coetiroedd ar y Taliad Fferm Sengl. Mae'r daflen hon yn ceisio ateb rhai o'r cwestiynau hyn.

COETIROEDD A'R CYNLLUN TALIAD SENGL

Bydd modd defnyddio tir sydd wedi cynhyrchu hawl i'r Taliad Sengl – fel y'i defnyddiwyd ar gyfer ardal porthiant ar gyfer cynlluniau cymhorthdal CAP yn y blynyddoedd cyfeiriol, ond sydd nawr wedi'i eithrio ar gyfer stoc o dan gynllun megis Tir Gofal – i hawlio'r Taliad Sengl.

Bydd yn rhaid rheoli'r cyfryw dir yn unol â rheolau'r Cynllun Taliad Sengl, a'i gadw mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC). Rhaid iddo hefyd fod yn bosibl dychwelyd ei ddefnydd i bori o fewn blwyddyn. I helpu i egluro hyn – dylai tir sydd wedi'i ddosbarthu o dan gyfarwydddebau Tir Gofal a ddangosir yn Nhabl 1 ddenu'r Taliad Sengl mewn pob achos, ar wahân i'r rhai mwyaf eithriadol.



Ffig 1: Coetir Newydd

TABL 1: Cyfarwydddebau Tir Gofal

coetir heb ei bori (1A)	ffiniau gwair garw (28)
coetiroedd newydd (37)	cnydau gorchudd bywyd gwyllt (30)
ffiniau braenar heb gnydau (29)	gwelyau cors newydd (39)
rhostiroedd newydd (41)	morfeydd heli newydd (42)
coridorau glannau afon (38)	

Gellir gadael manau o goetiroedd sydd wedi eu pori o'r blaen, heb eu pori er mwyn galluogi i goed ifanc a phlanhigion coetiroedd eraill sefydlu eu hunain. Yn aml, gellir rheoli'r coetir yn weithredol i gyd-fynd â hyn, megis teneuo canopi'r coed i alluogi i fwy o olau gyrraedd llawr y coetir. Efallai y bydd adeiladu ffensys a giatiau ac ychydig o waith teneuo yn gymwys am gymorth grant dan y Cynllun Gwell Coetiroedd i Gymru, a weinyddir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru.

Mewn amser, efallai y bydd yn briodol ailgyflwyno lefel o bori, gan ddibynnu ar ddyheadau'r perchennog a pha mor gyflym y bydd y borfa'n ailgyflwynu. Torrwyd llawer o goetiroedd pori yn ystod y 1940au ac maent wedi ailgyflwynu fel clystyrau o'r un oedran. Yn y cyflwr hwn, mae ganddynt werth cyfyngedig iawn naill ai ar gyfer cysgod neu fel cynefin ar gyfer bywyd gwyllt a gêm. Gall y coetiroedd hyn fod yn llefydd oer, drafftig, ond gyda'r rheolaeth gywir, maent yn newid yn fuan ac nid yw'n hir nes bod bywyd gwyllt yn symud i mewn i fanteisio ar yr amgylchedd newydd.

Ni fydd ardaloedd bychain o blannu newydd ar gyfer cysgod stoc neu ar gyfer bywyd gwyllt yn bygwth rheolau cymhwyster y Cynllun Taliad Sengl. Gall llawer o ffermwyr ddewis plannu o'r newydd ar safleoedd glannau nentydd lle mae eithrio stoc o naill ochr y nant yn atal erydu'r lan a hefyd yn lleihau cysylltiad â stoc gyfagos.

Ni ellir defnyddio ardaloedd mwy o goetir yng Nghynllun Premiwm Coetir Ffermydd i gefnogi hawliad am hawl safonol i'r Taliad Sengl. Fodd bynnag, mae gwahanol reolau ar gyfer yr ardaloedd hyn os cânt eu defnyddio i gefnogi hawliau neilltir (tir wedi'i neilltuo), a nodir yn *Llyfryn Esboniadol ar gyfer Cymru 2006 - Neilltir o dan Gynllun y Taliad Sengl*, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

RHEOLAETH COETIROEDD

Mae coetiroedd a reolir yn weithredol yn adfywio'n gyson o dyfiant ac eginblanhigion coedlannau. Mae hyn yn darparu amgylchedd deinamig sy'n galluogi i amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid ffynnu, a chynefin delfrydol ar gyfer adar gêm. Gyda detholiadau gofalus ar ddechrau'r broses, y mae hefyd yn gwella ac yn datblygu ansawdd y cnwd coed, ac o ganlyniad, ei werth. Gall rhwydwaith o goetiroedd wedi eu rheoli'n dda ar fferm hefyd wella gwerth cyfalaf y daliad, a all fod yn ysgogiad ar gyfer plannu planhigion newydd dail llydan.

Mae cymorth ar gael drwy Coetiroedd Gwell i Gymru a thrwy Tir Gofal. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan CALU, www.calu.bangor.ac.uk, ffôn: 01248 680 450 neu e-bostiwrch calu@bangor.ac.uk.



Ffig 2: Coetir derw yng Nghymru